# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(Via Microsoft Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, A.Jarrett, C.Davies, K.Jones, C.Griffiths, S.Brennan, M.Roberts, D.Griffiths, A.Thomas, R.George, Ms.J.Smith, PWalker, J.Hillier a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

## 1. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Prif gynllun Parc Gwledig Ystâd y Gnoll

Darparwyd crynodeb i'r Aelodau o brif gynllun Parc Gwledig Ystâd y Gnoll a'r cyfleoedd y mae'r cynllun yn eu cynnig ar gyfer gwella'r parc.

Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy yr adroddiad ar ei ran ef ei hun a'r Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy. Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion ystyried ehangu'r gynulleidfa ar yr ymgynghoriad er mwyn cael ymateb helaeth yn y dyfodol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â'r diffyg parcio sydd ar gael yn y lleoliad a'r potensial ar gyfer parcio ychwanegol yn dilyn y prif gynllun.

Trafodwyd costau parcio preswylwyr lleol, tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod yr holl gostau parcio yn unol â pharcio canol y dref.

Gofynnodd yr Aelod a fyddai angen adleoli rhai digwyddiadau yr oedd y cyngor wedi'u cynnal yn flaenorol ym Mharc y Gnoll. Esboniodd swyddogion fod trafodaethau'n cael eu cynnal i sicrhau y gellir cynnal digwyddiadau'r cyngor.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith nad oedd y Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr yn cynnwys camau gweithredu ynghylch gwella bioamrywiaeth ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll, a nodwyd yn flaenoriaeth allweddol i ymatebwyr yr arolwg ar-lein. Nodwyd y byddai'r Gweithgor Swyddogion yn sicrhau y byddai camau gweithred sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn cael eu datblygu yn y cynllun a'i gamau gweithredu a gofynnwyd sut byddai hyn yn cael ei hyrwyddo a'i fonitro. Esboniwyd bod y gweithgor swyddogion yn gynamserol o hyd ac y byddai'r trefniadau craffu'n parhau yn y Pwyllgor Craffu Hamdden a Diwylliant gan roi cyfle i barhau i graffu ar hyn a'i fonitro ymhellach.

Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ystyried y bywyd gwyllt yn y parc er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn barc gwledig ac yn atal lleihau bywyd gwyllt.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Pleidlais dros Adnewyddu Ardal Gwella Busnes Castell-nedd</u>

Hysbyswyd yr Aelodau o fwriad 'Neath Inspired' (BID) i gynnal pleidlais dros adnewyddu am dymor arall o bum mlynedd yn ardal Canol Tref Castell-nedd.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â'r ardoll y byddai'n ofynnol i fusnesau ei thalu, pe baent ym mharth y BID. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch yr anawsterau parhaus sy'n wynebu busnesau oherwydd yr incwm a gollwyd yn sgîl pandemig Coronafeirws.

Sicrhaodd swyddogion yr aelodau eu bod yn deall eu hamheuon presennol ond, wedi ystyried, roeddent yn teimlo y gallai adnewyddu'r BID gefnogi adferiad busnesau lleol o'r pandemig dros y pum mlynedd nesaf. O ran y taliad ardoll, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai taliad o'r fath yn daladwy gan fusnesau sydd â gwerth

trethadwy cydgasgledig o £6,000 neu fwy yn unig. Byddai pob busnes sydd wedi'u graddio islaw'r trothwy hwn yn cael ei eithrio. Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Cyfarpar TG i Ysgolion

Cafodd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am brosesu'r cyngor a darparu cyfarpar TG i blant ym mhob ysgol.

Nododd a chanmolodd yr Aelodau y gwaith a fu'n gysylltiedig â sicrhau y gallai Dysgu Cyfunol lwyddo a phwysigrwydd gael y cyfarpar. Gofynnwyd a oedd pecynnau hyfforddiant a meddalwedd wedi'u hystyried yn unol â dosbarthiad y cyfarpar TG. Cadarnhaodd swyddogion fod pecynnau hyfforddiant a meddalwedd wedi'u hystyried. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai disgyblion yn defnyddio gwahanol lwyfannau i gyflawni dysgu cyfunol a bod ysgolion yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r feddalwedd a'r cyfarpar.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 2. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 3. CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Trefniadau Ariannol Hamdden

Cyflwynwyd adroddiad preifat i'r Aelodau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ariannol presennol yn y cyfleusterau hamdden a'r effeithiau y mae COVID-19 wedi'u cael ar y cyfleusterau hyn.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**